

# Ysgol Llanfair Pwllgwynnyll



2018-2019

Prospectws Ysgol





"Diolch am ddarllen ein prospectws. Mae Ysgol Llanfairpwll wedi ei bendithio ag athrawon mawr eu gofal, ac rydym ni fel llywodraethwyr yn gwneud pob ymdrech i'w cefnogi a'u cynorthwyo ymhob ffordd.

Pan wnewch y penderfyniad i anfon eich plentyn i Ysgol Llanfairpwll gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd ef/hi yn profi'r addysg orau posibl."

*Gwawr Bell*

Gwawr Bell  
Cadeirydd y Corff  
Llywodraethol

Rydym yn -

Ysgol Iach  
Ysgol Eco  
Ysgol Sustrans  
Ysgol Rhyngwladol



### Gair o groeso gan y Pennaeth.

Mae'n bleser gennyf gael cyflwyno'r llawlyfr ar gyfer 2018/2019 i rieni'r disgyblion sy'n mynychu neu'n ystyried mynychu Ysgol Llanfairpwll.

Mae awyrgylch hapus a gweithgar yn yr ysgol lle mae pawb yn cael eu trin fel unigolion ac yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi gan bawb arall yn yr ysgol.

Mae amgylchfyd ddymunol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd lawer ar gyfer astudiaethau awyr agored sydd yn sicr o gyfoethogi profiadau cwricwlaidd y plant. Mae gwarchodfa natur ym mhen pellaf y cae ynghyd â deg gwely ar gyfer plannu. Datblygodd yr ysgol ardal chwarae antur, llong chwarae ac ardal ddarllen stori. Mae rhain oll yn cyfrannu tuag at ddatblygiad addysgiadol y plant. Heb amheuaeth mae'r ffaith fod adeilad y Gorlan, cartref y Cylch Meithrin, wedi ei leoli yn yr ysgol wedi profi yn llwyddiant mawr gan sicrhau cysylltiadau agosach rhwng yr ysgol, y plant cyn-oed ysgol a'r gymuned leol.

Dengys y llywodraethwyr a'r rhieni ymroddiad gwerthfawr tuag at yr ysgol yn nhermau eu cefnogaeth i'n polisiau a'u cymorth wrth godi arian.

Gobeithir y bydd y wybodaeth o fewn y llawlyfr yn eich hysbysu am athroniaeth a threfniadaeth yr ysgol a hefyd yn hybu cydweithrediad clos a chysylltiad ystyrlon rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r bartneriaeth yma yn un holl bwysig ac wrth gydweithio gyda'n gilydd gallwn roi cymorth i bob plentyn wneud y gorau o'i allu.

Yn Ysgol Llanfairpwll rydym yn darparu amgylchfyd ddiogel, hapus a threfnus lle mae plant yn datblygu parch at eraill, agweddau cyfrifol, hunan ddisgyblaeth, arferion gwaith da, parch at eu hamgylchfyd a balchder yn eu gwaith a'u llwyddiannau.

Gofynnwn i chwi fel rhieni gefnogi'r ysgol er mwyn datblygu'r agweddau hyn gan sicrhau bod eich plant yn cyrraedd yr ysgol ar amser, yn ymddwyn yn briodol bob amser, yn cael eu hannog i barchu eiddo pobl eraill ac eiddo'r ysgol, a bod yr ysgol yn cael gwybodaeth ysgrifenedig/ffôn os yw eich plentyn yn absennol neu'n hwyr.

Mae'n bwysig eich bod yn dangos diddordeb cyson yn yr hyn mae eich plentyn yn ei wneud yn yr ysgol. Bydd cyfle i chwi ddod i'r ysgol i drafod datblygiad eich plentyn. Ein nôd yw creu cymuned ofalgar a phwrpasol y gallwn oll fod yn falch ohoni.

Yr wyf yn barod bob amser i dywys darpar rieni a'u plant o amgylch yr ysgol. Ffoniwch neu galwch i mewn i drefnu ymweliad er mwyn cyfarfod y staff ac ymweld â'r dosbarthiadau.

Edrychwn ymlaen i'ch cyfarfod.

*Gwyn Fleming*

Gwyn Fleming (Pennaeth)

## YR YSGOL

Yr ysgol ddyddiol gyntaf yn yr ardal hon oedd Ysgol Duges Kent. Fe godwyd yr ysgol eglwys hon ar lecyn ger Tyddyn Pwyth, rhyw hanner milltir y tu allan i'r pentref. Fel mae'r enw'n awgrymu, Duges Kent - mam y Frenhines Fictoria, a gyfrannodd y £30 a oedd ei angen er mwyn sefydlu'r lle. Codwyd yr ysgol gyda'r bwriad o ddarparu addysg ar gyfer plant o blwyfi Llanfair Pwllgwyngyll, Llanedwen, Llanidan a Llanddaniel. Caewyd hi yn 1872. Ychydig o blant y fro mewn gwirionedd gafodd gyfle i fynychu Ysgol Duges Kent.

Yn dilyn Deddf Addysg Forster yn 1870, fe benderfynodd y llywodraeth fod angen codi mwy o ysgolion er mwyn addysgu pob plentyn yn y wlad. Ond, fe achosodd hyn ffræ fawr yn Llanfair. Doedd Eglwyswyr a Chapelwyr y plwyf ddim yn gallu cytuno ar sut y dylid symud ymlaen, ac felly, fe adeiladwyd dwy ysgol newydd sbon.



Ar 4 Rhagfyr 1871, fe agorwyd Ysgol Genedlaethol Llanfair, neu'r Ysgol Fyny, fel ei gelwid hi'n lleol. Ysgol ar gyfer plant yr Eglwyswyr oedd hon. Yna, fis yn ddiweddarach, ar 2 Ionawr 1872, fe agorwyd yr Ysgol Fwrdd. Ysgol ar gyfer plant y Capelwyr oedd hon. Am flynyddoedd hon oedd yr Ysgol Lawr. Yn 1911, fe gaewyd yr hen ysgol hon, ac fe symudwyd i lecyn newydd, ble mae'r ysgol bresennol.

Erbyn y 1950au cynnar, roedd niferoedd y plant wedi gostwng yn arw yn y ddwy ysgol, ac felly, fe benderfynnodd y Cyngor Sir, fod un ysgol yn hen ddigon i anghenion pentref Llanfair. Ar ddiwedd 1953, fe ddaeth yr Ysgol Fyny i ddiwedd ei hoes, ac yn Ionawr 1954, am y tro cyntaf, fe addysgwyd holl blant y pentref o dan yr un to.



## Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll



Ffordd Caergybi  
Llanfairpwll  
Ynys Môn.  
LL61 5TX

### Ffôn:

01248 714478

### Gwê:

[www.ysgollanfairpwll.org.uk](http://www.ysgollanfairpwll.org.uk)

### ebost:

*Pennaeth* -

[gwynpleming@ysgollanfairpwll.org](mailto:gwynpleming@ysgollanfairpwll.org)

*Swyddfa* -

[ysg2152a@anglesey.gov.uk](mailto:ysg2152a@anglesey.gov.uk)

### Categori Iaith yr Ysgol:

Categori - Ysgol Cwbl  
ddwyieithog



## Datganiad o Amcanion Cyffredinol

Ceisir sicrhau bod yr addysg â ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb â'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cyd-weithio ar yr un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd o dan ofal un athro/awes sefydlog.

Cynllunir yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol gan addysgu'r pynciau craidd a sylfaen yn CA2 a Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athro/athrawes. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir y profiadau a'r gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol drwy ddilyn themâu penodol.

Dylai ein hamcan fel athrawon fod yn un sydd yn creu sefyllfa addysgol lle y gall pob disgybl unigol deimlo ei fod yn aelod ohonni a'i fod yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad fel unigolyn. Dylem ystyried y plentyn, nid yn unig fel disgybl ond hefyd fel aelod o gymdeithas yr ysgol ac fel aelod o'r gymdeithas y tu hwnt i furiau'r ysgol.

Rhaid cofio hefyd fod y plentyn yn aelod o deulu ac yn naturiol iawn mae ei brofiadau yn yr ysgol ac ar yr aelwyd yn dylanwadu'n gryf y naill ar y llall. Gan gadw hyn mewn côf, dylem geisio meithrin perthynas agos â'r rhieni.

Ein prif nôd felly yw creu awyrgylch addysgol hapus; awyrgylch addas i ehangu gwybodaeth, dyfnhau profiad a meithrin dawn greadigol. Dylai hyn arwain at ymwybyddiaeth o safonau moesol ar ran y disgybl.

Dylem hefyd ystyried y plentyn fel personoliaeth gyfan a sicrhau fod ei yrfa yn Ysgol Llanfairpwll yn brofiad hapus; profiad fydd yn hyrwyddo ei ddatblygiad corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol.

Felly pan ddaw'r amser i'r disgyblion adael yr ysgol, dylent fod wedi cael sylfaen addysgiadol gadarn i adeiladu arni yn y dyfodol a'r profiad angenrheidiol i fod yn aelodau hyderus a gwerthfawr o gymdeithas sydd heddiw mor gyfnewidiol ei naws.



## Anghenion Ychwanegol

**Mae pob plentyn yn wahanol. Mae pob plentyn yn datblygu ar raddfa wahanol...**

*Mae gan Ysgol Llanfairpwll drefniadau ar gyfer adnabod a darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. Y mae'n rhan o'n polisi i asesu anghenion ein disgyblion mor fuan ag y medrwn. Mae'r Côt Ymarfer yn caniatáu monitro agos o'r ddarpariaeth hon; gall hyn fod ar ffurf cefnogaeth oddi mewn i'r dosbarth, trwy atal disgyblion o'r gwersi arferol i dderbyn cymorth neu trwy symleiddio'r cwricwlwm er mwyn hyrwyddo'r astudiaethau sylfaenol.*

*Yn ystod holl gamau'r broses o ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol unrhyw ddisgybl, rydym yn ceisio gweithio mewn cysylltiad clos â'r rhieni, gan bwysleisio pwysigrwydd perthynas gydweithredol iach rhwng yr ysgol a'r cartref.*

*Mae gan yr ysgol Bolisi Cyfle Cyfartal i'r holl ddisgyblion.*

### **DISGYBLION GYDAG ANABLEDDAU**

*Mae Ysgol Llanfairpwll yn anelu i fod yn ysgol gynwysedig. Rydym yn sicrhau nad oes rhwystrau allai amharu ar ddysgu a chyfranogiad a allai amharu neu eithrio unigolyn neu grwp o ddisgyblion.*

*Golyga hyn fod cyfle cyfartal yn realiti i bob disgybl, yn cynnwys disgyblion ag anableddau. Fe sicrhawn fod disgyblion ac anghenion yn cael yr un cyfleoedd a disgyblion eraill i elwa o'r addysg a gaiff ei ddarparu yn Ysgol Llanfairpwll.*

*Mae manylion ein Cynllun Hygyrchedd yn nodi'r newidiadau allai fod yn ofynnol i'w gwneud i'r adeilad, neu agweddau eraill o'r ysgol, fel ein bod yn cyflawni gofynion cyfreithiol, i symud rhwystrau er mwyn sicrhau cynhwysiad disgyblion ac aelodau o'r staff sydd ag anableddau.*

### **Plant mewn Gofal**

Miss Mari-Ann Evans yw'r athrawes sy'n benodol gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

## Dyheadau'r ysgol ar gyfer ein disgyblion

- Byddwn yn darparu amgylchedd corfforol ac emosiynol fydd yn hyrwyddo dysgu drwy'r meddwl, y corff a'r emosiynau.
- Byddant yn cael profiadau addysgol ystyrlon mewn amryfal sefyllfaoedd wedi eu strwythuro ac heb eu strwythuro.
- Bydd ein disgyblion yn profi addysg fydd yn cyfarfod eu anghenion unigol (yn academiaidd, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol)
- Byddwn yn integreiddio sgiliau addysg ac agweddau gydol oes i weithgareddau addysgol a darparu cyfleoedd i'n plant gymryd rhan fel partneriaid yn yr addysgu o fewn y gymdogaeth ehangach ( dosbarth, ysgol, lleol, cenedlaethol a bydeang)
- Byddwn yn sicrhau bod holl ystod cyraeddiadau ein dysgwyr yn cael eu parchu a'u cydnabod a bydd ystod y cyraeddiadau yn cael eu hasesu mewn dull adeiladol.

### **Yn ogystal byddwn yn**

- parhau i feithrin y rôl hollbwysig sydd gennych chi fel rhieni yn nhaith dysgu eich plant.
- groesawgar bob amser gan gynnig cyfleoedd i chi ymwneud â bywyd dyddiol yr ysgol
- rhoi gwybodaeth i chi ar ddatblygiad eich plentyn yn ein nosweithiau rhieni tymhorol a diwrnod agored.
- rhannu gwybodaeth ynglyn â materion bob dydd yr ysgol drwy gylchlythyrau rheolaidd a gwefan yr ysgol.



# Staff Ysgol



Mr Gwyn Pleming  
(Pennaeth)



Mr Gafyn Lloyd Jones  
(Pennaeth  
Cynorthwyol) Bl 3/4



Miss Bethan Evans  
(Cydylydd y Cyfnod  
Sylfaen) Bl 1/2



Miss Ffion Owen  
(Cydylydd 5/6)  
Bl 5/6



Mrs Sioned McAreavey  
Bl 5/6



Mr Rhys Edwards  
Bl 5/6



Miss Mari-Ann Evans  
(Cydylydd ADY)  
Bl 3/4



Mr Eilir Evans  
Bl 3/4



Mrs Emma Owen  
Bl 1/2



Mrs Gwenan Evans  
Bl 1/2



Mrs Siân Davies-Hughes  
Dosbarth Derbyn



Mrs Ceri Gwyn  
Dosbarth Derbyn



Miss Ruth Owen  
Dosbarth Meithrin



Mrs Shân Wright Hughes  
CPA



Miss Ffion Hughes  
CPA



Mrs Bethan Griffith  
CPA



Mrs Sian Jones  
(CDLU) CD - Bl 1/2



Mrs Ceri Robb  
CD - Meithrin



Mrs Sarah Kelly  
CD - Meithrin



Mrs Ceri Thomas  
CD - Derbyn



Mrs Anwen Parry  
CD - Derbyn



Mrs Sara Kelly  
CD - Derbyn



Mrs Eirian Alston  
CD - Bl 1/2



Miss Nia Woodcock  
CD - Bl 1/2



Mrs Nia Hughes  
Goruchyliwr Cinio  
CD - Targedu



Mrs Sharon Evans  
CD - ADY/Targedu



Mrs Linda Evans  
CD - Targedu



Ms Amanda Welsby  
CD - ADY



Mrs Rhian Roberts  
CD - ADY



Mrs Heidi Thomas  
CD - ADY



Mrs Wendy Backhouse  
Swyddog Gweinyddol



Mr Daniel Vaughan  
CD - ADY





Mr Sian Jones  
CD - ADY



Mrs Janet Sanpher  
Cogyddes Cyn/Glanhauraig



Mrs Margaret Wilson  
Cogyddes Cynorthwyol



Mrs Sandra Thomas  
Cogyddes Cynorthwyol



Miss Debbie Wilson  
Cogyddes Cynorthwyol



Mrs Mary Winfield  
Cogyddes



Miss Annwen Roberts  
Cogyddes Cynorthwyol



Mrs Gemma Vaughan  
Cogyddes Cynorthwyol



Mrs Mari Hughes  
Goruchwyliwr Cinio




Mrs Gwyneth Parry  
Goruchwyliwr Cinio



Mrs Mary Parry  
Goruchwyliwr Cinio



Mrs Mair Lloyd  
Goruchwyliwr Brecwast



Mrs Brenda Williams  
Gofalwraig



## Mynediad

*Sylwch os gwelwch yn dda mai'r Awdurdod Lleol yn unig sy'n gyfrifol am yr holl ysgolion a gynhelir ym Môn.*

## Meithrin

*Mae gan eich plentyn yr hawl i ymuno â dosbarth meithrin rhan-amser yn y mis Medi cyntaf ar ôl ei benblwydd yn dair oed.*

## Ni allwn ond derbyn 46 o ddisgyblion i bob Grŵp Blwyddyn

*Yn aml rydym wedi cael mwy o geisiadau nag sydd gennym o le ac y mae rhieni sy'n awyddus i'w plant ddod i Ysgol Llanfairpwll yn cael eu siomi. Nid oes gennym unrhyw ran yn y broses mynediad, ond gallwn ateb unrhyw gwestiynau os byddwch angen cymorth.*

## Hawl gynnar

Mae gan blant hawl i 10 awr o leoliad addysgol yn ystod y tymor sy'n dilyn eu penblwydd yn dair oed. Mae'r Cylch Meithrin ar y safle yn cynnig llefydd fel rhan o'r cynllun hwn. Gall yr ysgol eich cynghori ond gellir cael gwybodaeth bellach drwy ymweld â'r Ysgol Feithrin neu drwy ffonio 01248716823

## Trefn Mynediad

Mae'r ysgol wedi'i rhannu yn Adran y Babanod [Cyfnod Sylfaen neu CS] ac yn Adran Iau [Cyfnod Allweddol 2 neu CA2]. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn weithredol ar draws Adran y Babanod. Yng Nghyfnod Allweddol 2, er bod y plant yn cael eu dysgu, gan amlaf, yn eu grwp dosbarth eu hunain, gellir cymryd disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion allan o'r dosbarth o bryd i'w gilydd. Byddai a wnelo hyn ar y cyfan â gwersi cerdd neu anghenion addysgol arbennig.

Ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf, 2017- 2018, mae dosbarthiadau'r ysgol wedi eu trefnu fel a ganlyn:

Grwp Blwyddyn	Nifer y Dosbarthiadau
<b>Cyfnod Sylfaen</b>	
Dosbarth Meithrin	1 (Un bore / Un prynhawn)
Dosbarth Derbyn	2 (ond yn gweithredu ar y cyd)
Blwyddyn 1 + 2	3 (ond yn gweithredu ar y cyd)
<b>CA2</b>	
Blwyddyn 3 a 4	3
Blwyddyn 5 a 6	3

## Disgyblion rhan amser (Meithrin)

Gall plant gael mynediad i'r Flwyddyn Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen ar y mis Medi yn dilyn eu trydydd penblwydd.

Mae ffurflenni Cais Adran Feithrin ar gael o swyddfa'r ysgol o fis Ionawr. Dylid dychwelyd y ffurflen wedi ei llenwi, i'r ysgol, fydd yn ei hanfon ymlaen i'r Adran Addysg. Byddwch yn cael hysbysiad o le Meithrin yn fuan ar ôl gwyliau'r Pasg.

## Disgyblion Llawn Amser

Gall plant gael mynediad i ddosbarth Derbyn y Cyfnod Sylfaen ar y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Bydd angen llenwi ffurflen gais i sicrhau lle Derbyn i'ch plentyn a gellir gwneud cais am y ffurflenni hyn i'r Ysgol neu'r Awdurdod Lleol. Mae'n rhaid dilyn y drefn hon ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn y dosbarth Meithrin yn yr ysgol hefyd. Byddwch yn derbyn hysbysiad o le yn y Dosbarth Derbyn yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Leol.

Unwaith y bydd y plant yn bum mlwydd oed mae eu haddysg yn statudol ac mae gan y rhieni yr hawl i ddewis yr ysgol a fynychant. Os na fydd gennym le ar gyfer eich plentyn yn ei b(f)lwyddyn academiaidd gallwch apelio i'r Awdurdod Leol.

Trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd

Os dymunwch drosglwyddo eich plentyn o ysgol arall rydym yn gofyn i chi siarad gyda phrifathro ysgol bresennol eich plentyn a wnaiff lenwi ffurflen drosglwyddo.

## Ysgolion Uwchradd

Bydd disgyblion yr ysgol yn symud ymlaen i ysgol uwchradd ar ddiwedd Blwyddyn 6. Ysgol David Hughes yw ysgol leol disgyblion Llanfair Pwllgwyngyll. Bydd staff o Ysgol David Hughes yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn a bydd y plant yn cael cyfle i dreulio diwrnod yn yr ysgol o'u dewis.

## DIWRNOD YSGOL

### TREFNIADAETH YR YSGOL

Atgoffwn chi na ddylai plant gyrraedd safle'r ysgol tan ar ôl 8.40 yn y bore. Bydd athrawon ar ddyletswydd allan ar y buarth ar ôl 8.50 a.m. Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Brecwast. Ceir rhagor of fanylion am y Clwb Brecwast ymhellach ymlaen.

Pan fydd y gloch yn canu ychydig cyn 9.00 a.m. caiff rhieni'r plant yn y Dosbarth Derbyn eu danfon i gyntedd y dosbarth yn ystod yr wythnos gyntaf, ond yn fuan byddant wedi ennill digon o hyder i'w gadael yng ngofal yr athrawon i fynd i mewn i'r ysgol ar eu pen eu hunain. Ar ddiwedd y dydd bydd plant yr Adran yn cael eu rhyddhau atoch ger mynedfeydd dosbarthiadau Adran y Babanod. Wedi i'ch plentyn ymgartrefu yn yr ysgol gofynnwn i chi beidio â dod i mewn i'r adeilad ar ddechrau na diwedd y dydd os nad oes rhywbeth pwysig gennych i'w drafod. Gallwch drefnu cyfarfod trwy'r Swyddog Gweinyddol. Gofynnwn yn garedig i chi ddefnyddio'r brif fynedfa i'r ysgol yn ystod y dydd gan na fydd y mynedfeydd eraill ar agor. Os bydd angen i chi gyrchu eich plentyn o'r dosbarth yn ystod oriau ysgol, yna bydd un o'r staff yn gwneud hynny.

Y mae'r diwrnod ysgol yn cynnwys gwasanaeth torfol neu weithred o addoliad yn y neuadd neu yn y dosbarth.

### NEWID TREFNIADAU / CASGLU PLANT O'R YSGOL

Adlewyrchiad trist ar y byd yr ydym yn byw ynddo ydi bod yn rhaid i ni'r athrawon fod yn ofalus dros ben wrth ryddhau plant o'r ysgol i ofal pobl na fyddant yn galw amdanynt fel rheol. Ni ellir gor-bwysleisio'r angen i rieni roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn y trefniadau arferol ar gyfer codi'r plant o'r ysgol ar derfyn dydd. Yn yr un modd, os bydd y rhieni hynny a fydd fel rheol yn codi eu plant yn cael eu dal am unrhyw reswm, mae'n bwysig inni gael gwybod fel bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud. Os bydd eich plentyn yn colli'r ysgol oherwydd salwch, gofynnir i chi ysgrifennu nodyn a'i yrru yn ôl i'r ysgol ar y diwrnod cyntaf ar ôl iddo / iddi ddychwelyd. Gwerthfawrogi galwad ffôn neu e-bost i'r ysgol wedi 8.30 ar fore cyntaf yr absenoldeb.

I gloi, pan fydd teulu'n chwalu, ac un o'r rhieni'n cael gofal am y plant, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau hynny er mwyn medru osgoi sefyllfaoedd annifyr neu anodd i'r staff a'r plant.



### ETHOS YR YSGOL

Yn yr ardal hon fe ystyrir bod Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll gyda 367 o ddisgyblion yn ysgol gynradd fawr. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys pentref Llanfair Pwllgwyngyll ac ardal Penmynydd a Star. Ceir disgyblion hefyd sydd yn teithio o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang ag iddi amrywiaeth ieithyddol a chymdeithasol. Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol. Ymfalchiwn yn y ffaith bod y mwyafrif o ymwelwyr â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a disgyblaeth sy'n bodoli yma a'r modd y bydd disgyblion newydd yn ymgartrefu yn fodlon a buan.

Ceir awyrgylch ddiwyd yn y dosbarthiadau a atgyfnerthir gan arddangosfeydd chwaethus o waith y plant. Bydd hyn yn dangos parch at waith ac ymdrechion y disgyblion ac yn sicrhau amgylchedd symbylus a deniadol.

Mae staff yr ysgol yn ymroddedig i ddatblygiad ein disgyblion ac fe fyddant yn awyddus i dderbyn unrhyw wybodaeth y byddwch am ei rannu. Disgwylir safon uchel o ymddygiad ac ymroddiad ar bob achlysur. Os na fydd disgyblion yn cydymffurfio fe roddir gwybod iddynt hwy ac i chwithau yn y gobaith y gellir datrys unrhyw anhawster trwy rannu'r baich.

Adran	Sesiwn	Amser
Meithrin (Sesiwn bore neu brynhawn)	Bore	09.00 - 11.00
	Prynhawn	13.00 - 15.00
Cyfnod Sylfaen	Bore	09.00 - 12.00
	Prynhawn	13.00 - 15.10
Cyfnod Allweddol 2	Bore	09.00 - 12.00
	Prynhawn	13.00 - 15.15

## Presenoldeb

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn bwysig iawn. Mae polisi'r ysgol ar Bresenoldeb a Phrydlondeb yn diffinio absenoldebau awdurdodedig a diawdurdod yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru

## Gwyliau

Ni chaniateir i blentyn golli mwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol i fynd ar wyliau. Gellir cael ffurflenni gwyliau o'r Dderbynfa.

## Sustem Tecstio Negeseuon

Rydym yn defnyddio sustem decstio o'r enw School Gateway. Oni fydd eich plentyn wedi cyrraedd ei d(dd)osbarth ebyn 9.05 byddwn yn cysylltu â chi drwy'r ffôn neu drwy neges decst yn gofyn i chi roi gwybod i'r ysgol beth yw'r rheswm am ei absenoldeb.

## Monitro Presenoldeb

Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn cael eu harolygu'n wythnosol gan y Swyddog Gweinyddol. Byddwn yn eich gwahodd i gyfarfod os bydd gennym unrhyw bryderon. Mae presenoldeb yr ysgol yn cael ei arolygu yn rheolaidd gan Swyddog Lles dros Llanfairpwll, fydd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd fydd ei angen.

## Salwch

Os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd salwch neu os bydd raid ymweld â'r deintydd neu'r ysbyty bydd angen i chi adael i ni wybod naill ai drwy anfon nodyn at yr athro/athrawes dosbarth neu adael i Swyddog Gweinyddol yr ysgol wybod ar y ffôn. Mae hyn yn ein galluogi i wneud yn siwr nad yw unrhyw absenoldeb yn cael ei gofnodi'n anghywir, ac yn bwysicach yn eich galluogi chi i'n helpu ni i gadw'ch plentyn yn ddiogel. Os cymerir plentyn yn wael yn ystod diwrnod ysgol, byddwn yn cysylltu â chi i ddod i'w nôl. Pe digwyddai'r sefyllfa anffodus o ddamwain yn yr ysgol, a ninnau'n methu cael gfael ar y rhiant, eir â'r disgybl i'r ysbyty mewn car neu mewn ambiwlans ,yng nghwmni aelod o'r staff.

## Manylion presenoldeb am y flwyddyn academaidd 2016-2017:

Canran	Tymor 1	Tymor 2	Tymor 3
Meithrin	93.0	96.4	96.9
Derbyn	96.5	96.2	95.8
Blwyddyn 1	95.4	94.9	96.0
Blwyddyn 2	96.7	96.2	96.4
Blwyddyn 3	94.8	94.8	96.2
Blwyddyn 4	96.2	95.6	96.0
Blwyddyn 5	96.7	96.0	97.6
Blwyddyn 6	95.4	97.1	97.2
Cyfartaledd	95.8	95.9	96.5



**Gwybodaeth y bydd arnom ei angen.**

Bydd y ffurflenni a'r wybodaeth ganlynol ar gael ar fynediad i'r ysgol

**Cytundeb cartref ac ysgol**

*Mae copi o hon ar gael yn yr atodiad i'r ddogfen hon. Mae angen i'r rhieni ei harwyddo.*

**Ffurflen gwybodaeth cyswllt**

*Mae hon yn ffurflen bwysig iawn. Ni fyddwn yn derbyn disgyblion i'r ysgol oni fyddwn yn gwybod sut i gysylltu â chi os bydd argyfwng. Os byddwch yn newid unrhyw fanylion cyswllt gadewch i ni wybod ar unwaith.*

**Ffurflen ymwybyddiaeth gyfryngol**

*Byddwn yn tynnu lluniau a gwneud ffilmiau fideo o'n disgyblion yn yr ysgol am nifer o wahanol resymau. O ganlyniad gofynnwn i chi ddarllen a chwblhau y ffurflen Ymwybyddiaeth Gyfryngol sy'n nodi'r rhesymau dros i ni gael lluniau o'ch plentyn.*

**Ffurflen ganiatau trafniadaeth neu ymweliad ysgol**

*Rydym yn aml yn cymryd y plant allan o dir yr ysgol i ychwanegu at eu haddysg. Ar gyfer teithiau lleol, o gwmpas y pentref, i'r goedwig ac yn y blaen, byddwn yn gofyn i chi gwblhau llythyr caniatad cyffredinol. Ar gyfer teithiau pellach byddwn yn rhoi mwy o fanylion pendant. Bydd pob ymweliad ysgol yn dilyn canllawiau lechyd a Diogelwch. Miss Mari Ann Evans yw ein trefnydd Ymweliadau Addysgol.*

Gellir prynu dillad ysgol o Brodwaith, Gaerwen neu arlein yn Cotton Roots

Brodwaith Mon,  
Unit 1 Old Cunliffe Site  
Bryn Cefni Ind Est Road  
Llangefni, Anglesey  
LL77 7JA  
Tel: 01248 750 333

Gellir hefyd prynu dillad ysgol o safon uchel Masnach Deg ar y we gan gwmni 'Cotton Trade'. Dyma'r link-

<http://bit.ly/1SfPbE2>



## Gwisg Ysgol

Polisi'r ysgol yw y dylai'r holl ddisgyblion wisgo gwisg ysgol swyddogol.

Genethod	Bechgyn
Sgert ddu / tiwnig / gwisg 'pinafore' / Trowsus jogio du	Trowsus du / Trowsus jogio du
Blows wen / crys polo coch / gwyn a logo cyferbyniol	Crys gwyn / crys polo gwyn neu goch a logo cyferbyniol
Siwmpwr goch / crys chwys coch coler crew / cardigan goch gyda'r logo	Siwmpwr goch / crys coler crew gyda'r logo
Teits/Sannau gwyn/coch/ddu	Sanau llwyd / ddu
Gwisg Ysgol Haf	
Fel yr uchod neu Crys 'T' coch / gwyn Ffrog / sgert goch a gwyn neu siorts	Fel yr uchod neu Crys 'T' coch / gwyn Trowsus byr llwyd / coch

## YMARFER CORFF, CHWARAEON, NOFIO

Dylai'r plant ddod ag esgidiau sboncio, shorts du a chrys-T gwyn ar gyfer gwersi ymarfer corff; dillad pêl-droed ar gyfer gwersi pêl-droed a gwisg nofio ar gyfer gwersi nofio.

Mae tracwisg yn ddilledyn defnyddiol iawn i'r bechgyn a'r genethod. Gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi ymarfer corff a chwaraeon ac i deithio i'r pwll nofio.





## Cinio Ysgol

Mae perthynas hwyliog rhwng ein disgyblion a'n staff goruchwyllo a merched y gegin, ac edrychir ar ôl y plant yn dda iawn. Os oes gan eich plentyn unrhyw broblemau bwyta e.e. os ydyw'n araf iawn yn bwyta, neu fod problem diet neu alergedd a fyddwch mor garedig â

dweud wrthym cyn iddynt gychwyn yr ysgol. Os bydd unrhyw broblemau'n codi yn y blynyddoedd dilynol, gadewch i'r ysgol wybod mor fuan â phosibl. Cyflwynir bwydlen sydd yn esiampl o'r math o brydau a goginir yn yr ysgol a sesiwn blasu bwyd yn y cyfarfod rhieni newydd. Mae ein cwmni arlwyyo yn darparu bwydlen gytbwys ac iach iawn.

Os nad ydych am i'ch plentyn / plant gael cinio ysgol, nid yw hynny'n drafferth yn y byd gan fod nifer o'n disgyblion yn dod â'u pecyn bwyd eu hunain i'r ysgol. Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn yr ystafell fwyta, ac mae diod o ddŵr ar gael iddynt os oes arnynt ei eisiau. Os oes arnoch eisiau i'ch plentyn ddod â'i becyn bwyd i'r ysgol, ceisiwch sicrhau na fydd ganddynt ddim byd i'w dorri, yn enwedig pethau dal diod. Erfyniwn arnoch i fod yn ddethol gyda'r pecynnau bwyd; mae llawer yn rhoi gormod o bethau melys i'r plant, ac yr ydym yn ceisio cael yn holl blant i fwyta'n iach yn yr ysgol. Nid ydym yn fodlon caniatáu bocsys bwyd gwael. Dim ond dŵr a ganiateir gyda'r pecyn bwyd.

Peidiwch ag anghofio hefyd fod gan eich plentyn yr hawl i gael cinio ysgol am ddim os ydych chi'n cael Nawdd Cymdeithasol. Mae pob cais yn cael ei ystyried yn gwbl gyfrinachol ac mae'r ffurflenni perthnasol i'w cael gan y Swyddog Gweinyddol.

## Alergedd / Anghenion Arbennig

Petai eich plentyn angen diet arbennig, neu petai unrhyw fwyd angen cael ei osgoi, rydym yn gofyn yn garedig i chi adael i gogyddes yr ysgol, Mrs Annie Jones, wybod drwy lythyr. Mi fydd yn fwy na pharod i addasu'r bwydlen ar gyfer anghenion y plentyn. Gallwch wneud apwyntiad i drafod hyn ymhellach drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Os yw eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr, byddwn yn ddiolchgar petai chi yn gadael i'r swyddog gweinyddol wybod os yw angen cinio.

## Cost Cinio Ysgol

Adran	Dyddiol	Wythnosol
Cyfnod Sylfaen (Babanod)	£2.40	£12
Cyfnod Allweddol 2 (Adran Iau)	£2.40	£12

## Talu.

Os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau bod arian cinio yn cael ei dalu o flaen llaw ar ddydd Llun mewn amlen gaeedig. Nodwch ar yr amlen:

"Arian Cinio"

Enw eich plentyn

Dosbarth eich plentyn

Y swm o arian oddi mewn.

## Cinio am ddim

Pan fydd eich plentyn yn dechrau addysg lawn amser, efallai y byddwch yn gymwys am ginio am ddim. I fod yn gymwys rhaid cael:

- Lwfans chwilio am waith
- Cynhaliaeth Incwm
- Credyd Treth Plant (os yw'r incwm yn llai na £16,190)

Rydym yn annog pob rhiant sydd yn tybio eu bod yn gymwys i dderbyn cinio i holi yn y swyddfa budd-dal

## Clwb Brecwast

Mae'r ysgol yn rhedeg clwb brecwast poblogaidd. Mae'r clwb yn costio £1 yn ddyddiol i rai sydd yn cyrraedd cyn 8:25yb. Mae brecwast yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd yn dod ar ôl 8.25yb. Bydd y drysau yn agored o 8:00 hyd 8:45. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r ysgol.

## Bwyta'n Iach

Ni chaniateir i blant ddod â diod a melysion gyda nhw i'r ysgol. Anogir hwy i ddod â ffrwyth ac mae llefrith ar gael yn yr ysgol bob dydd. Mae'r llefrith am ddim i'r Babanod a chodir 10c y dydd i blant yr Adran Iau. Mae ffynhonnau dŵr ar gael ymhob adran i blant gael diod yn ystod y dydd. Dŵr yn unig a gaiff ei ganiatáu fel diod yn yr ysgol. Mae caffï yn y Dosbarth Derbyn.



## Iechyd a Diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pob unigolyn sydd naill ai yn weithiwr neu'n ddisgybl yn Ysgol Llanfairpwll o bwysigrwydd sylfaenol. Rydym yn anelu i ddarparu amgylchedd gweithiol diogel a dymunol i bawb. Mae'r corff llywodraethol a'r AALL yn gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion ac aelodau staff. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r dderbynfa wrth gyrraedd yr ysgol.

Mae pob drws allanol yn cael eu cloi yn ystod amser gwersi - ond yn caniatáu llwybr sydyn petai tân.

Mae trefn mewn lle i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn ystod y dydd. Megis :

- Ymarfer tan yn cael ei gario allan yn rheolaidd.
- Aseiad risg cyfredol
- Mae holl offer trydanol yn cael ei brofi yn dymhorol
- Mae dŵr yr ysgol yn cael ei brofi o ran ansawdd yn rheolaidd.
- Mae cymhareb dda o oedolion i blant yn ystod amser chwarae.
- Mae ymarferwyr cymorth cyntaf ehangach ar ddylestwydd bob amser chwarae.

## Trefn Diogelwch.

Rydym yn ymdrechu i wneud yr ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae giatiau'r ysgol yn cael eu cloi am 9:00, ac o hynny ymlaen yr unig fynedfa fydd drwy brif fynedfa'r ysgol. Bydd rhaid i bob ymwelydd fynd drwy'r brif fynedfa, lle y byddwn yn eu hebrwng i'w cyrchfan.

## Meddyginiaeth

Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y meddyg teuluol y gwnaiff yr athro roddi meddygaeth o unrhyw fath i blentyn, a hynny ond ar ôl ymgynghoriad â'r Prifathro. Dim ond meddyginiaethau ar gyfer salwch 'tymor-hir' fydd yn cael eu ystyried - ac ar gyfer meddyginiaethau tymor-byr, bydd rhaid i rieni wneud trefniadau i roi'r meddyginiaethau i'r plentyn. **Nid yw'r plant i ddod ag unrhyw fath o feddygaeth (tabledi, fffisig, a.y.b.) i'r ysgol.**

## Damweiniau

Bydd yr athrawon yn delio â damweiniau bychain. Os digwyddir damwain ddifrifol, cysylltir â'r rhieni yn ddi-oed. Mae'n bwysig felly bod gan yr ysgol rif ffôn pob rhiant fel y gallwn ei ddefnyddio mewn argyfwng. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu slip cofnodi Cymorth Cyntaf. Bydd hwn yn cael ei anfon adref gyda'ch plentyn pe bai Cymorth Cyntaf wedi ei roi.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod yn ddi-oed i'r ysgol os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu rif ffôn.



## Rheolau Ysgol:

Rydym yn gofyn i chi ein cynorthwyo gyda rhain:

1. Dilyn cyfarwyddiadau.
2. Bod yn garedig a moesgar tuag at eraill.
3. Rhoi eich llaw i fyny cyn siarad.
4. Cadw'r dosbarth yn daclus.
5. Gwneud eich gorau bob amser.
6. Cerdded o fewn adeilad yr ysgol.

Bydd y plant sydd yn dilyn y rheolau yma yn cael eu canmol gan yr athro/athrawes.

Bydd yr un rheolau'n weithredol allan ar yr iard ac yn y neuadd ginio.

Bydd plant a fydd yn camymddwyn yn cael:

Cam 1 Rhybudd ar lafar.

Cam 2 Nodi eu henwau yn llyfr cofnod yr athro dosbarth.

Cam 3 Colli amser chwarae / colli sêr.

Cam 4 Nodi eu henwau yn llyfr cofnod yr athro dosbarth. Os yn camymddwyn eto:

Cam 5 Cysylltu'n anffurfiol gyda'r rhieni.

Cam 6 Babanod -Cydlynnydd Adran y Babanod (Miss Bethan Evans)

Adran Iau - Pennaeth Cynorthwyol (Mr Gafyn Jones)

Cam 7 Nodi eu henwau yn llyfr cofnod y Pennaeth Cynorthwyol.

Cam 8 Cael eu gyrru at y Pennaeth.

Cam 9 Rhieni'n cael eu galw i mewn.

Cam 10 Gwahardd o'r ysgol – dros dro / yn barhaol.

Gofynnwn i bob rhiant arwyddo contract yn mynegi eu bod yn cefnogi polisi disgyblaeth yr ysgol.

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymwneud â lles yr holl ddisgyblion. Gweithredir cyfundrefn tai o fewn yr ysgol i ysgogi ac i ddisgyblu'r plant.

Mae pedwar ty i'r gyfundrefn fel a ganlyn -

Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn



Braint	Coch
Gwyngyll	Gwyrdd
Menai	Melyn
Tysilio	Glas


hunan-ddisgybledig ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

## Disgyblaeth

Os ydym am gynnal awyrgylch ddysgu briodol yn yr ysgol, mae'n hanfodol cael disgyblaeth dda. Mae'r ysgol yn dibynnu ar gefnogaeth rhieni yn y mater hwn.



Mae gennym reolau yn yr ysgol ac mae'n rhaid eu dilyn. Mae'r rheolau yma yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael cam ymddwyn nac amharu ar gyfle y mwyafrif o blant eraill i'w hawl i gael addysg.





## ARIAN POCED / PETHAU GWERTHFAWR

Ni ddylai plant ddod ag arian i'r ysgol os nad oes wir angen hynny arnynt. Os digwydd hynny, gofynnir iddynt roi'r arian neu bethau gwerthfawr personol eraill i'r athro dosbarth ar ddechrau'r dydd er mwyn osgoi cwynion am golledion o bocedi, desgiau ayb.

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am eiddo coll.

## TEGANAU A GEMAU

Ni chaniateir gwisgo modrwyau, clust dlysau ac yn y blaen. Gallant fod yn beryglus. Ni ddylai plant ddod a theganau gwerth arian / pethau gwerthfawr / ffônau symudol i'r ysgol rhag ofn iddynt gael eu torri neu eu colli - mae colli neu difrodi hoff degan yn gallu peri pryder.

## FFRINDIAU YSGOL LLANFAIR PWLLGWYNGYLL

Mae'r Ffrindiau'r Ysgol yn codi arian tuag at offer na ellir eu hariannu mewn unrhyw ffordd arall. Dros y blynyddoedd mae'r Ffrindiau wedi helpu datblygu y tu mewn a tu allan i'r Ysgol e.e. (yr ardd, blynyddoedd cynnar, cyfrifiaduron ac adnoddau chwaraeon). Mae amryw o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu yn ystod y flwyddyn Ysgol yn cynnwys Ffair Nadolig, Ffair Haf, Noson Fingo. Maent yn awyddus i rieni newydd gymryd rhan tra mae eu plant yn Ysgol Llanfairpwll (manylion ar gael yn y dderbynfa).

## CLWB AR OL YSGOL

Mae'r ysgol yn rhedeg clwb gwarchod - Clwb y Gollen. Mae'n agored i blant sy'n ddisgyblion yma yn yr ysgol ac yn agored yn ystod tymhorau'r Ysgol yn unig. Cewch fwy o fanylion gan Mrs Julie Burrows, Swyddog Gweinyddol yr ysgol. Mae rhestr aros am leoedd.

Dyma'r ffioedd ar hyn o bryd. Ffioedd - Tymhorau'r Ysgol

**£6.50 - 3.15 - 5.15**

Bydd y trydydd plentyn yn cael ei warchod yn ddi-dâl.



## YMWELIADAU ADDYSGIADOL

Credwn fod plant yn dysgu'n well mewn sefyllfaoedd real - unai yn y dosbarth neu yn y gymdeithas. Oherwydd hyn, yr ydym yn ymwybodol o fanteision ymweliadau a gwelwn hwynt fel ymestyniad o sefyllfa addysg y plant o dan ein gofal. Golyga'r ymweliadau yma fod rhaid i ni o dro i dro ofyn i rieni am **gyfraniadau gwirfoddol** tuag at y gost. Yn yr amgylchiadau yma anfonir nodyn i'r rhieni yn nodi'r swm a dyddiad yr ymweliad.

## BEICIAU

Rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio dulliau actif i ddod i'r ysgol megis cerdded a beicio. Mae gan yr ysgol man parcio beic dan orchudd ac rydym yn cynnig hyfforddiant beico.

Plant sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y Cwrs Beicio Cenedlaethol sydd yn cael eu hargymell i ddod a beiciau i'r ysgol heb oedolyn. Cyfrifoldeb y perchennog yw diogelu ei feic yn yr ysgol.

## Cwricwlwm

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nhyd-destyn athroniaeth a pholisiau presennol yr Awdurdod.

Dyfynnir isod ragair am amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr Awdurdod Addysg:

### Rhagair

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

- Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.



### Amcanion Cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yng nhyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a dioddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.
3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

## Athroniaeth yr Ysgol

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb â'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cyd-weithio ar yr un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd o dan ofal un athrawes/athro sefydlog.

Yn ôl awgrym Cyngor Cwricwlwm Cymru cynllunir y cwricwlwm ar sail wyth agwedd ar ddysgu gan gynnwys y pynciau craidd a sylfaen. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athro/athrawes. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir y profiadau a'r gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol drwy ddilyn themâu penodol.

## Datganiad o Amcanion Cyffredinol

Dylai ein hamcan fel athrawon fod yn un sydd yn creu sefyllfa addysgol lle y gall pob disgybl unigol deimlo ei fod yn aelod ohonni a'i fod yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad fel unigolyn. Dylem ystyried y plentyn, nid yn unig fel disgybl ond hefyd fel aelod o gymdeithas yr ysgol ac fel aelod o'r gymdeithas y tu hwnt i furiau'r ysgol.

Rhaid cofio hefyd fod y plentyn yn aelod o deulu ac yn naturiol iawn mae ei brofiadau yn yr ysgol ac ar yr aelwyd yn dylanwadu'n gryf y naill ar y llall. Gan gadw hyn mewn côf, dylem geisio meithrin perthynas agos â'r rhieni.

Ein prif nod felly yw creu awyrgylch addysgol hapus; awyrgylch addas i ehangu gwybodaeth, dyfnhau profiad a meithrin dawn greadigol. Dylai hyn arwain at ymwybyddiaeth o safonau moesol ar ran y disgybl.

Dylem hefyd ystyried y plentyn fel personoliaeth gyfan a sicrhau fod ei yrfa yn Ysgol Llanfairpwll yn brofiad hapus; profiad fydd yn hyrwyddo ei ddatblygiad corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol.

Felly pan ddaw'r amser i'r disgyblion adael yr ysgol, dylent fod wedi cael sylfaen addysgiadol gadarn i adeiladu arni yn y dyfodol a'r profiad angenrheidiol i fod yn aelodau hyderus a gwerthfawr o gymdeithas sydd heddiw mor gyfnewidiol ei naws.

Ambell weithgareddau Ysgol a gynhelir yn flynyddol.

### Tymor 1

Cyngherddau'r Nadolig  
Canu Carolau  
Diwrnod Ewropeaidd  
Diwrnod Rhyngwladol

### Tymor 2

Eisteddfod  
Diwrnod Entreprenuriaeth

### Tymor 3

Teithiau Addysgiadol  
Mabolgampau'r Ysgol  
Hwyl yr Hâf  
Cystadleuaethau Chwaraeon amrywiol  
Diwrnod Iach



# Y Cwricwlwm yn Ysgol Llanfairpwll

## Y Cyfnod Sylfaen

Miss Bethan Evans yw Cydlynnydd y Cyfnod Sylfaen

Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen dysgir amrediad o sgiliau er mwyn cwblhau gofynion y Rhaglen Addysg a osodir yn y Fframwaith Dysgu Plant 3-7 yng Nghymru. Rydym yn cael ein harwain gan ddiddordebau'r plant a'u profiadau dysgu blaenorol i adeiladu ein cwricwlwm cyfoethog o gwmpas gwybodaeth a dealltwriaeth bresennol, gan gynnwys derbyn sgiliau personol a chymdeithasol angenrheidiol. Rydym yn argymhell dolennau cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol i wneud yn siwr fod yr holl blant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a hunaniaeth ddiwylliannol gref.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen rydym yn ymdrin â 6 maes dysgu o'r Fframwaith:

- Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol, ac Amrywiaeth Diwylliannol
- Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Creadigol
- Datblygiad Corfforol

Er mwyn ymdrin yn llawn â'r meysydd hyn rydym yn dewis pynciau fydd o ddiddordeb i'r plant. Gan ein bod yn arolygu ein rhaglen dysgu yn gyson rydym yn monitro a hunan arfarnu y fantais i addysg eich plentyn. Bydd athro/athrawes eich plentyn trafod pynciau pwysicaf y flwyddyn gyda chi.

Mae cyflawni y Cyfnod Sylfaenol yn Ysgol Llanfairpwll yn sicrhau darpariaeth ddyddiol o weithgareddau llythrennedd a rhifedd.

Fel y mae'r plant yn datblygu at Gyfnod Allweddol 2 rydym yn adeiladu'n barhaus ar y sgiliau a ddatblygodd y plant yn eu blynyddoedd blaenorol. Bydd dogfennau ar y gwaith a gyflawnwyd ar gael gan athro/athrawes eich plentyn a bydd yn barod i drafod camau pellach eich plentyn gyda chi yn ein cyfarfodydd rhieni rheolaidd.

Rydym yn defnyddio system Incerts yn Ysgol Llanfairpwll i wneud yn siwr fod pob plentyn yn gwiethio ar lefel gywir o sialens.



Mae'r ysgol yn gobeithio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnwyd. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a drefnir yn ffurfiol yn rheolaidd fel a ganlyn:

**Pêl Droed**

Mae'r ysgol yn chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol ac yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan y Sir. Cynhelir clwb pêl-droed ar ôl 'ryscol bob pythefnos.

**Pêl Rwyd**

Mae'r ysgol wedi ymuno â Chymdeithas Pêl-rwyd Cymru a chyngrair pêl-rwyd yr Ynys (drwy'r Urdd). Cynhelir clwb pêl-rwyd ar ol ysgol bob wythnos.

**Nofio**

I'r bechgyn a'r genethod ym mlynnyddoedd 2 - 4. Llogir bws i gludo'r plant i bwll nofio Bangor bob bore dydd Mercher. Anogir hwy i ymgeisio am wobrau a bathodynau goroesiad personol.

**Athletau**

Cynhelir y rhain yn ystod tymor yr haf. Trefnir cyfarfodydd athletau yn yr Ysgol e.e. mabolgampau rhynglysoedd i'r Babanod a'r lau.


**Rygbi**

Mae'r ysgol yn cynnig hyfforddiant rygbi yn ystod tymhorau'r gaeaf a chwareir gemau cyfeillgar.

**Gitar**

Cynhelir clwb Guitar ar ôl 'ryscol.

**Cyfnod Allweddol 2  
Y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Pynciau Craidd	Pynciau Sylfaen
Saesneg	Technoleg
Mathemateg	Hanes
Gwyddoniaeth	Daearyddiaeth
Cymraeg	Cerddoriaeth
	Celf
	Addyg Gorfforol
	Addyg Grefyddol



Mae pob pwnc yn dilyn cynllun gwaith sy'n amlinellu'r cynnwys a'r sgiliau i'w hastudio.

Mae gwaith pob tymor wedi ei gynllunio'n ofalus gan yr athro/athrawes dosbarth. Er bod y

gwaith wedi ei seilio ar thema tymhorol, bydd yr athro yn cynnig agweddau

amrywiol er mwyn sicrhau lled a dyfnder i bob pwnc. Bydd yr athro hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu i gyflwyno ac addysgu'r gwaith er mwyn cyfarfod ag anghenion pob disgybl cyn belled â phosibl. Mae addysgu a dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 yn seiliedig ar sgiliau a'i gyflwyno mewn cylch dwy flynedd.

**IAITH - DATGANIAD O FWRIAD YR YSGOL**

**AMCANION CYFFREDINOL**

Mae Awdurdod Addysg Môn yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Môn a hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach y Sir.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academiaidd.



## Asesu

Bydd adroddiadau yn cael eu paratoi yn ystod tymor yr haf a byddant yn eich cyrraedd drwy law eich plant/plentyn. Mae asesu gwaith y plant trwy gydol y flwyddyn wedi cymryd lle arholiadau. Hefyd ceir profion cenedlaethol ym Mai.

Ar ddechrau dosbarth derbyn a pan fo'r plant yn saith ac unarddeg oed, maent yn cael eu hasesu fel rhan o bolisi'r Llywodraeth. Daw'r canlyniadau i chi drwy law eich plentyn. Mae gan yr ysgol bolisi 'drws agored'.

## Nosweithiau Agored

Rhoddir cyfle i rieni weld gwaith eu plant un waith bob tymor un ai yn ffurfiol mewn cyfarfod gyda'r athro dosbarth pryd y ceir adroddiad llafar ac ysgrifenedig neu i weld arddangosfa gyffredinol o waith y plant.

## Cofnodi Cyrhaeddiad

Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan arwyddocaol i gofnodi eu cyraeddiadau eu hunain. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i gosod gyda samplau gwaith a.y.b. mewn dogfen Cofnodi Cyrhaeddiad.

## AMCANION PENODOL

### Meithrin / Dosbarth Derbyn Medi 2017

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

### Babanod

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg o'r Saesneg.

### Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrdyfodiaid iau).

### Llythrennedd

Llafar Mae darparu nifer o brofiadau llafar ar draws y cwricwlwm yn eithriadol o bwysig i'r ysgol. Gwneir hyn mewn awyrgylch fydd yn cryfhau hunan hyder a huodled yn y ddwy iaith drwy fwynhad. Yn ogystal â threfnu ymweliadau a gweithgareddau all-gwricwlaidd rydym hefyd yn gwneud defnydd cyson o dechnegau fel chwarae rôl a drama. Derbyniodd yr ysgol Wobr Sgiliau Sylfaenol am Lythrennedd a Rhifedd

### Ysgrifennu

Ein gwaith yw datblygu sgiliau arbennig fydd yn caniatáu i'r disgybl greu gwaith ysgrifenedig ystyrion. Rhoddir y cyfle i

bob disgybl ymateb drwy ysgrifennu am amrywiaeth o brofiadau ac ysgogiadau cyffrous.

## Darllen

Ein bwriad yw hybu mwynhad a rhuglder. Cyflawnir hyn drwy gyflwyno darllen a llenyddiaeth mewn ffordd ddeniadol. Mae gan yr ysgol nifer o gynlluniau darllen. Cofnodir yn fanwl ddatblygiad pob unigolyn o fewn y cynllun ac arolygir hyn gan y Uwch Dîm Rheoli bob hanner tymor. Mae'r cynllun darllen wedi ei anelu at ddatblygu pleser y plentyn. Bydd rhieni'n derbyn cofnod o'r darllen i wneud unrhyw sylw ac i'n galluogi ni fel athrawon i wneud sylw pe bai angen.

Gwneir pob ymdrech i hybu a chyfoethogi ymwybyddiaeth y plant o bob agwedd o Gymreictod. Mae hyn wedi ei integreiddio i holl bynciau a gweithgareddau'r ysgol gyfan.

Mae ymweliadau ysgol a dosbarth yn bwysig iawn. Mae cwmnïau theatr





a pherfformwyr yn ymwelwyr cyson â'r ysgol. Credwn fod profiadau uniongyrchol ymysg arfau mwyaf grymus addysgu. Gwneir pob ymdrech i gynnwys gweithgareddau o fath yng nghynlluniau gwaith yr ysgol i gryfhau ac ymestyn dealltwriaeth o Rhaglenni Astudiaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol. I'r perwyl hwn bydd cyllideb bendant wedi ei neilltuo ar

gyfer ymweliadau ysgol. Bydd hyn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl a chyfle i ledaenu cost yr ymweliadau.

### Gwyddoniaeth

Datblygir sgiliau gwyddonol drwy ymchwil ac arbrofi. Drwy feithrin a datblygu brwdfrydedd ac agweddau cadarnhaol at wyddoniaeth rydym yn cymhell y plant i chwilio am aglurhad am y byd y maent yn byw ynddo.

### Mathemateg

Yn bennaf drwy ddefnyddio cynllun Mathemateg a luniwyd yn arbennig gyda chymorth cynghorwyr arbenigol, rydym yn cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r agwedd ymchwiliol i Fathemateg yn cryfhau hyder a dealltwriaeth y plentyn o sgiliau a chysyniadau mathemategol mewn dull strwythuredig sy'n caniatáu iddo/iddi weithio ar ei lefel ei hun. Ceir llawer o gyfleon ar draws y cwricwlwm i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau mathemategol i sicrhau eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad.

### Technoleg

Rydym yn rhoi sialens i'r plant i adnabod problemau ac i ddyfeisio ffyrdd o'u datrys drwy greu dyluniadau technolegol. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o arfau i greu a gwerthuso eu cynlluniau.

### Technoleg Gwybodaeth

Cyflwynir Technoleg Gwybodaeth ar draws y cwricwlwm i ddatblygu sgiliau a defnydd ymarferol wrth gyflwyno gwybodaeth, drwy ddefnyddio prosesydd geiriau, dysgu a chyfathrebu neu wrth raglennu teganau robotaid. Mae gan bob plentyn fynediad i'r wê. Bydd plant o bob oed yn defnyddio amrywiol ffynonellau fel CD Rom, Rhyngwrdd a rhaglenni addysgiadol i ymchwilio a dysgu. Mae gan yr ysgol adnoddau TG ardderchog.

### Daaryddiaeth

Ein bwriad yw datblygu ymwybyddiaeth y plant o'r berthynas rhwng pobl, lleoliadau a gofod. Caiff y plant eu dysgu am y byd a daaryddiaeth ffisegol, drwy ddefnyddio sgiliau mapio. Cânt hefyd eu hannog y ystyried yr amgylchedd, deall effaith dyn ar eu hamgylchedd ac i werthfawrogi eu rôl hwy o fewn yr amgylchedd.

## Mwy ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

### Mae ein darpariaeth yn y maes hwn yn ardderchog

Diolch i gefnogaeth ein Corff Llywodraethol mae cyfarpar arbennig yn yr ysgol.

Mae gennym tua 80 gliniadur a Chromebook ar gael i bob disgybl o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

Yn ogystal â mynediad i'r cyfrifiaduron hyn mae gan bob dosbarth le neilltuedig ar gyfer cyfrifiaduron desg.

Rydym bellach, ers Medi 2013, yn Apple Regional Training Center, ac yn darparu cyrsiau iPad a Mac i ysgolion y Sir a thu hwnt.

Mae gennym 40 iPad sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil a chynhyrchu cyflwyniadau. Mae'r ysgol yn rhedeg cynllun prynnu iPad 1:1 llwyddiannus yn flynyddol.

Rydym yn cynhyrchu 'podcast' wythnosol wedi ei recordio, ei olygu a'i lwytho gan y disgyblion.



### Y Meysydd Dysgu Newydd

Ymgorfforir y Meysydd Dysgu newydd i'n cynlluniau o Fedi 2015 ymlaen gan sicrhau ein bod yn diwallu eu anghenion yn llwyr gan wreiddio pob cynllun gyda gweithgareddau sydd yn datblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd ein disgyblion.

## Hanes

Rydym yn addysgu ein disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol. Rydym yn datblygu'r cysyniad o amser ac rydym yn galluogi'r plant i ddefnyddio ffynhonnellau hanesyddol ac i wahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen.

## Cerddoriaeth Caiff pob disgybl y cyfle i:

Gyfansoddi eu gweithiau eu hunain ar offer amrywiol gan gynnwys eu lleisiau eu hunain a recordio eu cyfansoddiadau Wrando ar a gwerthfawrogi cerddoriaeth o amrywiol ddiwylliannau a chyfnodau mewn hanes Berfformio gwaith cyhoeddiedig yn ogystal â'u gwaith eu hunain i gynulleidfaoedd gwahanol Mae'r ysgol



yn cefnogi'r plant i chwarae llawer o offerynau amrywiol. Mae 4 o athrawon peripatetig yn ymweld â'r ysgol bob wythnos i roi gwersi mewn chwythbrennau, offer pres, ffidil, a thelyn. Gweithredir cynllun taliadau.

## Celf

Rydym yn bwriadu datblygu dealltwriaeth o waith arlunwyr, dylunwyr a chelfyddyd o ddiwylliannau'r gorffennol a'r presennol. Caiff y plant gyfle i ddatblygu eu creadigrwydd gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol fel paent, clai a defnyddiau.

## Dawns

Mae'r cwricwlwm Addysg Gorfforol yn cynnwys elfen gref o ddawns. Byddwn yn cyflwyno elfennau dawn o wahanol ddiwylliannau a gwledydd yn ogystal â rhai traddodiadol Gymreig

## Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref rheolaidd yn yr Adran Iau. Mae hwn ar ffyrdd tasg benodol neu 'Dewis Doeth'. Tasgau pen agored fydd yn cynnig gweithagredau heriol i'r disgyblion yw rhain. Byddant hefyd yn gweithio ar themau neu brosiectau unigol a phan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cyd-weithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell i dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion, neu yn gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd y rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.



O dro i dro fe all athro arbennig ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

## Polisi aml ddiwylliant

Mae gan yr ysgol bolisi aml-ddiwylliant sydd ar gael o wneud cais amdano.

## Cyfleoedd cyfartal ac hygerchedd

Polisi'r ysgol yw hyrwyddo pob disgybl i gyrraedd ei botensial beth bynnag yw ei ryw, hil crefydd, anghenion ychwanegol neu gefndir cymdeithasol. O fewn y cyd-destun hwn mae'r ysgol yn



## Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Prifathro. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Prifathro.

## Polisi Codi Tâl

Polisi'r ysgol yw mynd â phob plentyn ar ymweliad addysgol. Yn unol â Deddf Ddiwygio Addysg 1988 mae gan y pwyllgor addysg lleol a llywodraethwyr yr ysgol yr hawl i wahodd cyfraniadau gwirfoddol gan rieni i helpu i ysgafnhau cost ymweliadau addysgol. Heb gefnogaeth gan rieni ni all gweithgareddau allanol ddigwydd. Pe bai ymweliad swyddogol yn golygu arhosiad dros nos, fel i Glanllyn a Chaerdydd, ar hyn o bryd mae gan rieni sy'n derbyn cefnogaeth incwm neu gredyd teuluol hawl i ad-daliad mewn costau aros dros nos. Cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda am fanylion pellach

ymrwymedig i ddileu gwahaniaeth anghyfreithlon ar sail hil, i hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Mae'r ysgol yn hygyrch i holl ddisgyblion. Mae mynedfa a ramp yn y neuadd a'r cefn gyda drysau digon llydan i gadair olwyn. Mae toiled anabl yn yr ysgol, ac mae'r holl doiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol i safon uchel dros ben. Mae'r ysgol yn lan ac mewn cyflwr da.

## Plant dan ofal

Y Pennath a Miss Bethan Evans cydlynnydd Amddiffyn Plan a Lles Plant sy'n gyfrifol fod plant dan ofal arbennig gyda hawl lawn a chyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm

## Meddygol

O dro i dro bydd Swyddog Meddygol a Swyddog Deintyddol yr ysgol yn ymweld â'r ysgol i archwilio'r plant. Cewch wybodaeth ysgrifenedig am yr ymweliadau hyn ac mae croeso i chi ddod efo'ch plentyn

## Nyrs yr Ysgol

Bydd Mrs Luned Mason, nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol. Y prif reswm dros ei hymweliad yw sgrinio. Yn ystod eu harosiad yn yr ysgol bydd disgyblion yn cael cyfres eang o archwiliadau meddygol a gweithrediadau ataliol. Bydd rhain yn cynnwys profion ar y golwg, clyw a lliw, taldra a phwysau, archwiliad meddygol (detholedig) ac archwiliad deintyddol.

## Ymwybyddiaeth o gyffuriau

O dro i dro bydd cwmnïau theatr arbenigol yn ymweld ag Ysol Llanfairpwll i ddelio â'r pwnc difrifol o gyffuriau mewn dull ysgafn. Defnyddir hiwmor i alluogi ein disgyblion i wahaniaethu rhwng y cyffuriau a ddarperir iddynt gan y meddyg a chyffuriau eraill. Dysgir y ffordd iddynt ddwued na i unrhywbeth a all achosi niwed iddynt. Mae croeso i rieni fynychu. Rydym hefyd yn gwahodd Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn dymhorol i gynnal gweithdai ynglŷn â hyn a materion eraill.

## Addysg Rhyw

Mae addysg rhyw a pherthnasedd yn cael ei gynnig fel rhaglen gyson drwy gydol y babanod a'r adran iau. Mae'r Corff Llywodraethol wedi penderfynu y dylai addysg rhyw gael ei gynnig i holl ddisgyblion mewn dull addas ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad fel rhan o gynllun addysgu ehangach, sydd yn tanlinellu pwysigrwydd bywyd teuluol a pherthnasedd personol. Yng nghyfnod allweddol 1 a gwaelod cyfnod allweddol 2 bydd addysg rhyw ac iechyd yn arwynebol. Ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol, bydd atgenhedlu, a'r cylch bywyd dynol yn cael ei gyflwyno a'i gysylltu i wyddoniaeth ac ABACh. Mae'r drefn o gyflwyno'r maes yn cael ei adolygu yn rheolaidd i ymateb i ofynion disgyblion unigol.

Mae copi o bolisi addysg rhyw'r ysgol ar gael yn y swyddfa. Mae gan rieni berffaith hawl i ymwrthod eu plentyn o addysg rhyw. Cysylltwch â'r Pennaeth petai chi eisiau trafod hyn.

## Crefydd


Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Y mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Fe ellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.


### Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwylledig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017
PSD	100	93	92	100	97	97	100	95	95
LCW	88	87	88	94	94	94	90	90	91
LCE	0	83	85	0	85	92	0	84	88
MDT	88	88	88	100	90	92	93	89	90
DCS	88	83	84	94	89	91	90	86	87



### Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



#### Nodiadau:

- - Dim data hanesyddol ar gael
- Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, les ac amrywiaeth ddiwyllianol; LCW = Sgiliau iaith, lythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, lythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deiliant disgwylledig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT i'w dau a naill ai LCW neu LCE.
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w haseau mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn tartytu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

## Perfformiad yr Ysgol - Cyfnod Sylfaen

Sylwebaeth:

Rydym wedi gweld perfformiad cyson dda ymhob maes o ddysgu ar ddiwedd y cyfnod sylfaen eleni, ac roedd lefelau is eleni i'w ddisgwyl. Mae ein disgyblion mwyaf galluog a thalentog wedi bod yn ganolbwynt ein sylw dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi gweld cynnydd yng nghyffwrdd y disgyblion sy'n cyrraedd graddfa 6. Gellir priodoli hyn i ganolbwyntio o'r newydd ar lythrennedd a rhifedd yn y cyfnod sylfaen, ad-drefnu athrawon a gwaith caled yr holl athrawon, disgyblion a rhieni.


Rydym yn edrych ymlaen i adeiladu ar y canlyniadau hyn y flwyddyn nesaf. Bydd y ffactorau canlynol yn ein cynorthwyo i wneud cynnydd pellach

- datblygiad pellach o arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen
- darpariaeth ADY ardderchog
- adnoddau ardderchog
- sylwi'n fuan a chefnogi disgyblion sy'n tan-gyflawni; y rhai mwy galluog a thalentog; a'r rhai gydag anghenion


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018 Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017
Saesneg	85	88	89	100	97	94	92	93	91
Cymraeg	78	85	89	100	92	95	88	88	92
Mathemateg	89	90	90	100	96	93	94	93	92
Gwyddoniaeth	89	91	91	100	97	94	94	94	92
DPC	85	88	87	100	96	92	92	91	90



### Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



#### Nodiadau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyfraddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dargosydd Pynciau Craidd. I siochau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

## Perfformiad yr Ysgol — Cyfnod Allweddol 2

### Sylwebaeth:

Cawsom ein canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 da, ac roedd y lefel is eleni i'w ddisgwyl. Rydym wedi canolbwyntio ein sylw ar nifer o agweddau gwahanol ac rydym yn rhagweld canlyniadau cyson dda dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym yn edrych ymlaen i adeiladu ar y canlyniadau hyn y flwyddyn nesaf. Bydd y ffactorau canlynol yn ein cynorthwyo i wneud cynnydd pellach

- mwy o arbenigedd yn ein defnydd o'n Cynorthwywyr Addysgu
- darpariaeth ADY ardderchog
- adnoddau ardderchog
- sylwi'n fuan a chefnogi disgyblion sy'n tan-gyflawni; y rhai mwy galluog a thalentog; a'r rhai gydag anghenion pellach.

# Dyddiadau Tymor 2018-2019

Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
3ydd Medi - 29ain Hydref	7fed Ionawr - 25ain Chwefror	29ain Ebrill - 27ain Mai
5ed Tachwedd - 24ain Rhagfyr	4ydd Mawrth - 29ain Ebrill	3ydd Mehefin - 19ed Gorffennaf
Diwrnod Hyfforddiant Staff: 3/9/18	Diwrnod Hyfforddiant Staff: I'w gadarnhau	Gwyl Fai: 6ed Mai

# Amser Sesiynau Ysgol

Adran	Sesiwn	Amser
Meithrin (Sesiwn bore neu prynhawn)	Bore	09.00 - 11.00
	Prynhawn	13.00 - 15.00
Y Cyfnod Sylfaen	Bore	09.00 - 12.00
	Prynhawn	13.00 - 15.10
Cyfnod Allweddol 2	Bore	09.00 - 12.00
	Prynhawn	13.00 - 15.15

# Manylion Llywodraethwyr

Mrs Gwawr Bell (Cadeirydd)	Pili Palas, Porthaethwy, Ynys Môn. LL59 5RP	
Mr Richard Edwards (Is-Gadeirydd)	Llwyn Hudol Star LL61 5BX	
Mr Alun Mummery	39 Trem Eryri Llanfairpwll	
Mrs Cerian Parry	Ynys Môn, LL61 5JY	
Ms Hanna Huws	Coedlys Llanfairpwll	
Mr Dyfed Jones	46 Ty Croes, Llanfairpwll. LL61 5JR	
Mrs Liz Lewis	Maes Tegfryn Lon Graig Llanfairpwll Ynys Môn	
Mrs Susan Hughes	Llwyn Hudol Star LL61 5BX	
Mr Stephen Edwards	6 Stad y Wern Llanfairpwll, Ynys Môn.	

# Manylion Llywodraethwyr

Mrs Bethan Scott	Dyfed, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn.	
Mr Gareth Jones		
Mrs Bethan Thomas		
Mrs Ruth Williams	2 Stad Foelgraig, Llanfairpwll, Ynys Môn. LL61 5RZ	
Mr Gwyn Pleming	Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll Ffordd Caergybi Llanfair Pwllgwyngyll	
Miss Bethan Evans	Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll Ffordd Caergybi Llanfair Pwllgwyngyll	
Miss Mari-Ann Evans	Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll Ffordd Caergybi Llanfair Pwllgwyngyll	
Mrs Siân Jones	Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll Ffordd Caergybi Llanfair Pwllgwyngyll	
Mrs Manon Jones		